



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Yng Nghymru

2019–2020



Cyflwyniad

Dyma ail gynllun gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPAau) yng Nghymru (2019-2020), a luniwyd gan Grŵp Llywio ar gyfer Rheoli MPAau Cymru (Grŵp Llywio). Mae'n nodi'r camau gweithredu â blaenoriaeth ar lefel rhwydwaith i wella'r gwaith o reoli MPAau ac, felly, gwella neu gynnal cyflwr y rhwydwaith o MPAau yng Nghymru. Mae Cynllun Gweithredu 2019-2020 yn cynnwys camau rheoli parhaus a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu 2018-19 ynghyd â champau gweithredu newydd a nodwyd ac a flaenoriaethwyd ar gyfer 2019-20. Mae'n ategu gweithgarwch rheoli a gyflawnir ar lefel leol ac a nodwyd o fewn cynlluniau gweithredu safleoedd unigol lle maent yn bodoli¹.

Mae Cynllun Gweithredu 2019-2020 yn mynd law yn llaw â Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau ar gyfer Cymru 2018-2023² (Fframwaith) a gyda'i gilydd maent yn rhoi arweiniad i Awdurdodau Rheoli i lywio'r gwaith o wireddu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer rheoli'r rhwydwaith:

Bydd rhwydwaith MPAau Cymru o dan reolaeth effeithiol a chyson sy'n diogelu bywyd gwylt a chynefinoedd morol safleoedd, gan arwain at gyflawni neu gynnal cyflwr ffafriol nodweddiadol safleoedd. Bydd y gwaith o reoli'r rhwydwaith yn cefnogi ecosystemau morol gwydn a fydd, yn eu tro, yn helpu i greu moroedd glân, diogel, iach, cynaliadwy, cynhyrchiol a biolegol amrywiol yng Nghymru. Bydd MPAau yn cael eu gwerthfawrogi am y buddion hirdymor y maen nhw'n eu darparu i bobl Cymru, trwy amddiffyn eu treftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog.

Caiff y Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer 2019-2020 ei gyhoeddi law yn llaw â'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau yng Nghymru ar gyfer 2018-2019³, sy'n rhoi'r diweddaraf am gynnydd y camau gweithredu a flaenoriaethwyd yng Nghynllun Gweithredu y llynedd (2018-2019). Wrth baratoi'r ddwy ddogfen, ystyriodd y Grŵp Llywio sut y gall asesu a beirniadu'n well cyfraniad y camau gweithredu at wella cyflwr cyffredinol y rhwydwaith o MPAau yng Nghymru, a'r rheolaeth ohonynt, i gefnogi'r weledigaeth hon. Bydd y Grŵp Llywio'n adlewyrchu'r dysgu hwn er mwyn llywio Adroddiadau Blynyddol a Chynlluniau Gweithredu'r dyfodol.

Y Camau Gweithredu

Mae pob cam gweithredu yng Nghynllun Gweithredu 2019-2020 yn cyfrannu at o leiaf un o bum egwyddor rheoli MPAau y Fframwaith, er mwyn llywio'r gwaith o wireddu'r weledigaeth a chyflawni'r amcanion ar gyfer rheoli'r rhwydwaith:

1. **Cynllunio Strategol:** Dylai'r gwaith rheoli gael ei lywio gan brosesau cynllunio strategol ar lefel sector a lefel Cymru gyfan. Mae'n cefnogi defnydd cynaliadwy o'r rhwydwaith o MPAau mewn ffyrdd gwarchod ac yn gwella cyflwr, yn cefnogi gwydnwch ecosystemau morol, yn cefnogi llesiant ac yn darparu rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol.

¹ gweler Atodiad 2 Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau ar gyfer Cymru 2018-2023 am fanylion y rhain: llyw.cymru/fframwaith-rheoli-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchoddedig-cymru

² llyw.cymru/fframwaith-rheoli-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchoddedig-cymru

³ llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-ar-reolir-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchoddedig

2. **Rheoleiddio, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu:** Dylid cyflawni prosesau rheoleiddio a phenderfyniadau caniatáu mewn modd cyson a chymesur ar draws y rhwydwaith, a mynd ati mewn modd rhagweithiol i ystyried a chefnogi'r gwaith o gynnal neu wella cyflwr safleoedd a'r nodweddion perthnasol ar draws y rhwydwaith, lle bo hynny'n bosibl/briodol.
3. **Cyngor ac arweiniad rheolwyr:** Dylai gweithrediadau penderfynu a rheoli gael eu hategu gan gyngor a chanllawiau clir a chyson ar MPAAu gan gynnwys eu hamcanion cadwraeth.
4. **Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a'r bygythiadau sy'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr:** Dylai rheolwyr gael eu harwain gan asesiadau ac adroddiadau ffurfiol ar iechyd a chyflwr nodweddion, safleoedd a'r rhwydwaith yn ei gyfanrwydd, a chyfeirio'n gyson at y rhain. Caiff asesiadau ac adroddiadau eu llywio gan raglen fonitro â blaenoriaeth sy'n gwella'r ddealltwriaeth o gyflwr, newid ac effeithiau ar draws agweddau ar y rhwydwaith lle y nodir pwysau allweddol.
5. **Rheolaeth ehangach:** Dylid blaenoriaethu gweithrediadau rheoli ar safleoedd unigol a lluosog er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cyflawni sydd â'r potensial i greu'r gwelliant mwyaf wrth reoli pwysau allweddol, a gwella'r cyflwr ar draws y rhwydwaith. Gall gweithgareddau rheoli gynnal neu wella cyflwr nodweddion, nodi a mynd i'r afael â phroblemau a phwysau lleol, a chodi ymwybyddiaeth o MPAAu, trwy ymyriadau wedi'u targedu a thrwy ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd.

Cynigiwyd camau gweithredu i'r Grŵp Llywio ar gyfer Rheoli MPAAu i'w hasesu'n erbyn set o feini prawf blaenoriaeth y cytunwyd arnynt, a nodir yn yr [Atodiad](#). Mae'r Grŵp Llywio wedi cytuno ar restr o 25 o gamau gweithredu y rhoddir blaenoriaeth iddynt, mae 19 ohonynt wedi'u dwyn ymlaen o Gynllun Gweithredu 2018-2019 oherwydd eu hamserlenni cyflawni neu eu natur barhaus ac mae 6 cam gweithredu newydd. Mae'r camau gweithredu'n adlewyrchu hyd a lled y gweithgarwch rheoli ar gyfer MPAAu sy'n digwydd bob dydd, yn ogystal ag ymyriadau a phrosiectau penodol. Yn yr un modd â Chynllun Gweithredu 2018-2019, mae llawer yn rhai ymchwiliol eu natur a rhagwelir y byddant yn arwain at ddatblygu ymyriadau gweithredol a fydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer sgrinio a blaenoriaethu ar gyfer Cynlluniau Gweithredu'r dyfodol.

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAAu	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
Camau a ddygwyd ymlaen o Gynllun Gweithredu 2018-2019						
1	<p>Datblygu dull o gynnal asesiadau gwell a chyfnodol o gyflwr MPAAu.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 1 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Bydd y prosiect hwn yn datblygu dangosyddion a phroses ar gyfer gwella'r broses o adrodd ar gyflwr y nodweddion a ddiogelir o fewn y rhwydwaith o MPAAu yng Nghymru.</p> <p>Prif weithgareddau'r prosiect yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygu cyfres o ddangosyddion adrodd, fel y gellir asesu ac adrodd ar gyflwr nodweddion MPAAu yn fwy effeithlon; • datblygu canllawiau y cytunwyd arnynt yn disgrifio sut y bydd asesiadau o gyflwr safleoedd yn cael eu cynnal ar bob un o'n MPAAu; a • treialu'r fethodoleg newydd ar safle(oedd)/nodwedd(ion) MPAAu yng Nghymru. 	<p>Prif ganlyniad y prosiect fydd y gallu i gynnal asesiadau prydlon o gyflwr safleoedd gan arwain at ddealltwriaeth well o gyflwr ein MPAAu yng Nghymru, a fydd yn llywio'r gwaith rheoli'n well ac yn canolbwyntio'r blaenoriaethau.</p>	Hyd 2018 – Mawrth 2022	CNC	Y

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
2	<p>Darparu rheolaeth o MPAau trwy brosesau caniatáu ac asesu rheoleiddiol.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 2 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Nod y gwaith hwn yw sicrhau bod caniatâd rheoleiddiol, prosesau asesu a gweithgarwch sy'n galluogi prosesau penderfynu yn ystyried yr effeithiau posibl ar y rhwydwaith o MPAau ac yn cynnwys mesurau lliniaru priodol lle y bo angen.</p>	<p>Gwneud penderfyniadau sy'n lleihau'r effaith ar nodweddion ein rhwydwaith o MPAau.</p>	Parhaus	Pob awdurdod rheoli	Y
3	<p>Datblygu ymhellach raglen monitro forol yn seiliedig ar risgiau ar draws y rhwydwaith o MPAau.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 4 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Mae'r gwaith hwn yn datblygu rhaglen monitro bioamrywiaeth forol wedi'i blaenoriaethu ac yn seiliedig ar risgiau a gaiff ei darparu gan ddefnyddio'r technegau mwyaf effeithlon ac effeithiol sydd ar gael.</p> <p>Caiff canlyniadau a dadansoddiadau eu cyhoeddi a'u defnyddio i lywio'r rheolwyr. Er bod y rhaglen newydd yn cael ei datblygu, bydd y rhaglen fonitro bresennol yn parhau i gael ei chyflwyno.</p>	<p>Gwell sail dystiolaeth i lywio asesiadau o gyflwr MPAau a mesurau rheoli priodol yn y dyfodol.</p> <p>Yn y tymor hir bydd y gwaith hwn yn sicrhau y gellir cael gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd mesurau rheoli.</p>	<p>Adolygiad o'r rhaglen fonitro bron â'i gwblhau.</p> <p>Rhoi rhaglen monitro bioamrywiaeth morol integredig newydd ar waith.</p>	CNC JNCC LIC	Y

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAAu	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
4	<p>Datblygu dull o fireinio amcanion cadwraeth ar gyfer pob MPA yng Nghymru, gan barhau i gyhoeddi canllawiau ar gyfer safleoedd newydd fel y bo angen.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 5 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Nod cyffredinol y prosiect hwn yw datblygu dull o wella amcanion cadwraeth ar gyfer pob MPA yng Nghymru.</p> <p>Eleni, bydd y prosiect yn adolygu canlyniadau profion y safle mewn perthynas ag amcanion cadwraeth a gynhaliwyd yn 2018-19 a chytuno ar ffordd ymlaen.</p> <p>Parhau i gyhoeddi cyngor ar gadwraeth ar gyfer safleoedd yn ôl yr angen.</p>	Bydd penderfyniadau a rheolaeth yn cael eu cefnogi gan gyngor a chanllawiau clir a chyson ar MPAAu gan gynnwys eu hamcanion cadwraeth.	<p>Cam nesaf: Mawrth 2020.</p> <p>Cyhoeddi cyngor ar gadwraeth yn barhaus.</p>	NRW JNCC	Y
5	<p>Datblygu Strategaeth Gwarchod Dolffiniaid a Llamydyddion ledled y DU.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 6 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	Nod y gwaith hwn yw datblygu dull gweithredu cyson ledled y DU ar gyfer rheoli pwysau a bygythiadau sy'n wynebu naw o'r rhywogaethau dolffin, llamhidydd a morfil bach mwyaf cyffredin yn nyfroedd y DU y tu mewn a'r tu allan i MPAAu.	Bydd y strategaeth, yn ogystal â'r rhwymedigaethau cyfreithiol presennol, yn llywio gwaith rheoli penodol er mwyn gwella dealltwriaeth a statws cadwraeth y rhywogaethau hyn yn nyfroedd y DU.	<p>Ymgynghori yn 2019.</p> <p>Cyhoeddi a gweithredu o 2020.</p>	LIC JNCC CNC	Y

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
6	<p>Asesu, a lle y bo angen, rheoli effaith gweithgareddau pysgota masnachol ar MPAau.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 8 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Nod y prosiect yw sicrhau bod y gwaith o reoli pysgodfeydd masnachol o fewn Safleoedd Morol Ewropeaidd yn rhoi diogelwch digonol i nodweddion dynodedig, yn unol â Chyfarwyddebau'r UE ar Adar a Chynefinoedd.</p> <p>Mae'r prosiect yn asesu'r rhyngweithio rhwng rhywogaethau a chynefinoedd a gwahanol fathau o offer pysgodfeydd. Mae'r asesiadau hyn yn cael eu defnyddio i bennu a oes angen mesurau rheoli pysgodfeydd yn y dyfodol.</p> <p>Eleni, bydd gweithgareddau'r prosiect yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • asesiadau o famaliaid morol (CNC); • asesiadau o weithgarwch pysgota â chawell (CNC); a • drafft terfynol o gynnig rheoli yn ystyried opsiynau ar gyfer mesurau rheoli ychwanegol ar gyfer y gweithgareddau a aseswyd yn borffor er mwyn llywio Cyngor Gweinidogion. 	<p>Gwell sail dystiolaeth ar y pwysau/bygythiadau a ddaw o'r holl weithgareddau pysgota masnachol perthnasol er mwyn pennu a oes angen camau rheoli.</p> <p>Archwilio a gweithredu ymyriadau rheoli, lle y bo angen, er mwyn gwella neu gynnal cyflwr nodweddion ar draws y rhwydwaith.</p>	<p>Cwblhau asesiadau 2020; mesurau rheoli yn mynd rhagddynt yn ôl yr angen.</p>	<p>LIC CNC</p>	<p>Y</p>

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAAu	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
7	<p>Gweithredu dull o orfodi pysgodfeydd sy'n seiliedig ar risg.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 9 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Mae'r gwaith hwn, sy'n cynnwys gorfodi ac erlyn, o fewn parth Cymru a'i MPAAu, yn gweithredu dull o orfodi morol sy'n seiliedig ar risg ac wedi'i arwain gan guddwybodaeth, gan ddefnyddio gwelliannau technolegol i gynnal ffocws ar weithgareddau pysgodfeydd risg uchel.</p> <p>Mae'n gweithredu fel rhwystr cryf i helpu i atal gweithgareddau pysgota anghyfreithlon a chyfrannu tuag at warchod nodweddion MPA a chyflwr cyffredinol y rhwydwaith yn barhaus.</p>	<p>Bydd y dull hwn yn gwella'r sail dystiolaeth ac yn helpu i reoli safleoedd er mwyn diogelu nodweddion dynodedig mewn MPAAu.</p>	Parhaus	LIC	Y
8	<p>Rhaglen Gwella Cyflwr y Rhwydwaith o MPAAu (Prosiect Gwella Cyflwr y MPA gynt).</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 10 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Mae'r rhaglen waith hon yn archwilio camau rheoli posibl, lle y bo angen, er mwyn mynd i'r afael â phwysau a bygythiadau a nodwyd ar gyfer y rhwydwaith o MPAAu.</p> <p>Eleni, bydd y rhaglen yn ystyried y pwysau a'r bygythiadau a nodwyd ar gyfer safleoedd a ddynodwyd yn ddiweddar (e.e. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n borfeydd i lamdyddion) a datblygu prosiectau lle y bo angen.</p>	<p>Bydd canolbwyntio'r ymdrech ar heriau rheoli â blaenoriaeth, yn parhau i helpu i ddatblygu a chyflawni'r camau hynny (1) sydd â'r potensial mwyaf i wella (neu gynnal) cyflwr nodweddion ar draws y rhwydwaith, neu (2) a fydd yn gwella dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng gweithgareddau a chyflwr nodweddion.</p>	Parhaus	NRW	Y

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAAu	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
8		<p>Bydd y rhaglen yn datblygu ac yn cefnogi gwaith ar draws y chwe maes gwaith blaenoriaeth (Amaethyddiaeth a Rheoli Tir, a nodwyd fel blaenoriaeth ar gyfer SoDdGA yn 2018-19) a bydd yn ceisio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwella prosesau cyfathrebu a ffyrdd o weithio ar draws meysydd polisi perthnasol • datblygu camau gweithredu a sicrhau cyllid lle y bo angen er mwyn gallu cyflawni. <p>Mae camau gweithredu â blaenoriaeth a ddatblygwyd drwy Raglen Gwella Cyflwr Rhwydwaith o MPAAu wedi cael eu cyflwyno, a byddant yn parhau i gael eu cyflwyno, fel camau gweithredu ar wahân ar gyfer sgrinio a blaenoriaethu yng Nghynlluniau Gweithredu'r dyfodol. Yng nghynllun gweithredu eleni, mae'r rhain yn gamau gweithredu 13, 15, 21 a 24.</p>				

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
9	<p>Gwella mapiau o ehangder a dosbarthiad cynefinoedd morol Atodiad I.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 11 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Mae'r gwaith hwn yn darparu tystiolaeth allweddol i helpu i reoli Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (e.e. cyngor ar waith achos) ac adrodd Erthygl 17. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â chasglu data gan drydydd parti (e.e. data amlbelydlyn Swyddfa Hydrograffeg y DU) i ddiweddarau mapiau.</p>	<p>Bydd mapiau gwell yn cefnogi'r gwaith rheoli yn ogystal â gwaith asesu ac adrodd.</p>	<p>Parhaus (wrth i ddata newydd ddod ar gael).</p>	<p>CNC</p>	<p>Y</p>

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
10	<p>Cyflawni'r camau gweithredu blaenoriaethol o fewn y Cynllun Gweithredu Ysbwriel Morol pan fyddant yn fuddiol i'r rhwydwaith o MPAau yng Nghymru.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel cam gweithredu 13 yn 2018-2019 cynllun gweithredu.</p>	<p>Bydd Cynllun Gweithredu Ysbwriel Morol y Bartneriaeth Moroedd Glân yn helpu i fynd i'r afael ag ysbwriel morol ac yn ceisio lleihau ysbwriel morol yn gyffredinol.</p> <p>Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â thystiolaeth yn y cynllun, mae prosiect a ariennir gan grant Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) yn mynd rhagddo sy'n cynnwys Cadwch Cymru'n Daclus, Y Gymdeithas Cadwraeth Forol, awdurdodau lleol ac eraill, i gasglu ymchwil i ysbwriel morol.</p> <p>Mae adolygiad o gamau gweithredu blaenoriaethol y cynllun yn mynd rhagddo i lywio'r cam nesaf yn y broses o gyflwyno'r cynllun.</p> <p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi creu rôl ysbwriel morol newydd er mwyn cryfhau eu gwaith mewdol ar ysbwriel morol a chefnogi eu haelodaeth o'r Bartneriaeth Moroedd Glân a chyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Ysbwriel Morol.</p>	<p>Gwella dealltwriaeth o, a lle y bo'n briodol, lleihau effeithiau ysbwriel ar yr amgylchedd morol ac MPAau os caiff mesurau o'r fath eu cymryd.</p>	<p>Mawrth 2021</p>	<p>Y Bartneriaeth Moroedd Glân: LIC CNC Dŵr Cymru Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau Awdurdodau Lleol Swyddogion Grŵp Awdurdod perthnasol</p>	<p>Y</p>

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAAu	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
11	<p>Archwilio sut y gellir cymhwyso canlyniadau prosiectau peilot ar llygredd dŵr ac aer atmosfferig gwasgaredig yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau, Morol Sir Benfro ac Aber Afon Hafren ar draws y rhwydwaith.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 15 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Mae nifer o safleoedd yn treialu prosiectau i gael gwell dealltwriaeth o effeithiau llygredd dŵr a llygredd atmosfferig gwasgaredig ar nodweddion MPA.</p> <p>Eleni, bydd Grŵp Llywio ar gyfer Rheoli'r MPAAu yn adolygu canlyniadau interim ac yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r prosiectau a gynhaliwyd yn 2018/19 i archwilio'r angen i ddatblygu prosiect/cam gweithredu ar raddfa rhwydwaith er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau llygredd ar nodweddion y rhwydwaith o MPAAu.</p>	<p>Canlyniad y gwaith hwn yn y pen draw fyddai gwell dealltwriaeth o effeithiau llygredd dŵr ac aer ar nodweddion ein rhwydwaith o MPAAu a chefnogi prosiectau, lle bo angen, i wella eu cyflwr.</p>	<p>Ionawr 2020</p>	<p>Grŵp Llywio ar gyfer Rheoli MPAAu</p>	<p>Y</p>

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
12	<p>Prosiect Rheoli Adnoddau Naturiol Morol mewn modd Cynaliadwy.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 16 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Mae'r prosiect hwn yn datblygu a gwella'r mynediad at y sylfaen dystiolaeth amgylcheddol, er mwyn helpu i nodi cyfleoedd a chyfyngiadau o ran datblygiad posibl y sector ynni tonnau a ffrydiau llanw a'r sector dyframaethu mewn dyfroedd Cymru yn y dyfodol. Bydd yn creu canllawiau lleoliadol a mathau eraill o offer i ganiatáu ystyriaeth o nodweddion sensitif amgylcheddol a helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisiau amgylcheddol yn y Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (ar ôl ei fabwysiadu).</p> <p>Mae ail gam y prosiect sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cynnwys casglu data newydd a dehongli tystiolaeth bresennol er mwyn mapio cyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol mewn ardaloedd adnoddau. Allbynnau terfynol y prosiect fydd pecynnau tystiolaeth i lywio'r gwaith o gynllunio, asesu a chydysnio datblygiadau.</p>	<p>Bydd gwella mynediad at ddata a gwybodaeth berthnasol, canllawiau lleoliadol ac adnoddau gwneud penderfyniadau yn helpu i sicrhau canlyniadau gwell i'r amgylchedd morol, gan gynnwys MPAau, ac yn cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy'r sectorau hyn.</p>	Rhagfyr 2020	CNC LIC	Y

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
12		Yn 2019/2020: Ychwanegir at y gwaith hwn gan brosiect ychwanegol (a ariennir gan Lywodraeth Cymru), a fydd yn datblygu ac yn gwella mynediad at y sail dystiolaeth amgylcheddol mewn perthynas â'r sector agregau.				
13	Datblygu cynllun bioddiogelwch sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) morol. Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 17 yng nghynllun gweithredu 2018-2019.	Bydd y prosiect peilot hwn yn darparu cynllun bioddiogelwch ar gyfer ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS). Bydd hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cynlluniau bioddiogelwch ar draws y rhwydwaith o MPAau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy: <ul style="list-style-type: none"> • gweithio gyda rhanddeiliaid i ymdrin â'r prif lwybrau o gyflwyno a lledaenu INNS morol; • datblygu technegau i asesu a darogan effeithiau INNS ar gynefinoedd a rhywogaethau; • meithrin gallu i amddiffyn bioamrywiaeth forol a lleihau'r risgiau i nodweddion gwarchoddedig; a • dysgu o brosiect 'Rapid LIFE', yn enwedig y gwaith peilot a gafodd ei wneud ar Afon Hafren. 	Amddiffyn nodweddion y safle, drwy reoli'r prif lwybrau y caiff INNS morol eu cyflwyno a'u lledaenu ar lefel safle trwy ddefnyddio bioddiogelwch da. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn llywio'r gwaith o gynllunio bioddiogelwch ar draws y rhwydwaith o MPAau.	Ebrill 2019 – Mawrth 2022	CNC Grŵp Awdurdod Perthnasol ACA Pen Llŷn a'r Sarnau	Y

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
14	<p>Datblygu canllawiau cyson a chymesur er mwyn gwella cyngor ar waith achos, a chefnogi'r gwaith o roi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar waith.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel cam gweithredu 18 yn 2018-2019 cynllun gweithredu.</p>	<p>Diben y gwaith hwn yw datblygu canllawiau i gefnogi asesiad cyson a chymesur o effeithiau gweithgareddau a reoleiddir ar nodweddion gwarchoddedig ardaloedd morol gwarchoddedig yng Nghymru.</p> <p>Mae canllawiau hefyd yn cael eu datblygu i gefnogi'r gyda'r gwaith o roi polisiau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar waith mewn penderfyniadau e.e. trwyddedu morol a chanllawiau sy'n ymwneud â pholisiau penodol.</p>	<p>Bydd canllawiau cyson a chymesur yn gymorth i wneud penderfyniadau gwell a fydd yn helpu i wella diogelwch y rheoli ac yn helpu i gynnal cyflwr nodweddion ein MPAau a'i wella lle y bo'n briodol.</p>	<p>Rhaglen barhaus o ganllawiau perthnasol.</p>	<p>CNC JNCC</p>	<p>Y</p>

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAAu	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
15	<p>Mynd i'r afael ag effeithiau gwasgfa arfordirol ar MPAAu.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 19 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Bydd y gwaith eleni yn cynnwys adolygiad o'r dystiolaeth a gasglwyd yn 2018/19 o natur a maint gwasgfa arfordirol⁴ ar nodweddion cynefinoedd arfordirol MPAAu yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (y tu allan i'r gofynion digolledu a ragwelir o'r gwaith sy'n gysylltiedig â chynlluniau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol). Bydd atebion posibl i wrthbwyso colli cynefinoedd yn cael eu hystyried.</p> <p>Bydd gwaith yn parhau i ddatblygu prosiectau creu cynefinoedd er mwyn ddarparu cynefin arfordirol cydadferol ar gyfer cynefinoedd y rhagwelir y bydd yn cael eu colli yn sgil gwaith sy'n gysylltiedig â chynlluniau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol.</p>	<p>Defnyddio gwybodaeth newydd am effeithiau gwasgfa arfordirol er mwyn helpu i gynnal cyfanrwydd y rhwydwaith.</p> <p>Digolledu am golli rhai cynefinoedd arfordirol oherwydd newid yn yr hinsawdd.</p>	Parhaus	CNC LIC	Y

⁴ Gwasgfa arfordirol yw colli cynefinoedd naturiol sy'n deillio o strwythurau, neu weithredoedd, a wnaed gan ddyn sy'n y cynefinoedd hynny rhag symud tuag at y tir fel y byddent yn ei wneud yn naturiol mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr (SLR), o bosibl ar y cyd â phrosesau arfordirol eraill. Mae gwasgfa arfordirol yn lleihau arwynebedd cynefinoedd sydd ar ochr y môr i'r strwythurau presennol.

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
16	<p>Cynnal cysylltiadau rhwng Cynllun Gweithredu'r Rhwydwaith o MPAau a chamau gweithredu a gytunwyd yn lleol, pan fo'r rhain yn bodoli, a chefnogi'r gwaith o edrych am gyfleoedd ariannu.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 20 yng Nghynllun Gweithredu 2018-19.</p>	Bydd y cam hwn yn amlygu camau gweithredu lleol perthnasol ac yn cysylltu â'r rhain, gan gynnwys camau gweithredu lleol penodol yn y cynllun gweithredu blynyddol fel y bo'n briodol.	Mae'n caniatáu i'r arferion gorau gael eu rhannu o wahanol safleoedd i'r rhwydwaith o MPAau ac yn annog gwaith ar draws safleoedd, yn ogystal â hyrwyddo'r gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel safle.	Bydd adroddiadau'n cael eu cynhyrchu gan EMSOau a'u casglu ynghyd gan y swyddogion hyn a'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig erbyn Mai 2020.	Grwpiau Awdurdodau Perthnasol.	Y

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
17	<p>Rheoli'r rhwydwaith o MPAau mewn modd integredig a chynaliadwy gyda phroses y Datganiadau Ardal.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 21 yng Nghynllun Gweithredu 2018-19.</p>	<p>Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod pum egwyddor rheoli'r Fframwaith MPAau wedi'u hymwreiddio ym mhrosesau a chynhyrchion y Datganiadau Ardal Morol ac yn cael eu hintegreiddio yn y rhain, gan gydnabod bod diogelu rhwydwaith o MPAau sy'n cael ei reoli'n dda yn elfen allweddol wrth gyflenwi'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chreu ecosystem forol wydn.</p> <p>Bydd y ffocws dros y flwyddyn nesaf ar ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ynghylch themâu penodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • atebion seiliedig ar natur ac ymaddasu yn y parth arfordirol; • cefnogi'r gwaith o weithredu cynllunio morol; ac • adeiladu gwydnwch yr amgylchedd morol. <p>Bydd ymgysylltu o gymorth i nodi blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd a chytuno ar gamau cydweithredol i fynd i'r afael â nhw.</p>	<p>Integreiddio prosesau cynllunio a rheoli morol er mwyn gwella gwydnwch ecosystemau morol gan gynnwys y rhwydwaith o MDAau.</p>	<p>Datblygu datganiad ardal morol cyntaf (Mawrth 2020) a chyflwyno parhaus.</p>	<p>Awdurdodau Rheoli CNC a'r holl randdeiliaid perthnasol eraill</p>	Y

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
18	<p>Gwella hygyrchedd data monitro morol.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 3 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Bydd y prosiect hwn yn parhau i goladu, sicrhau ansawdd a chofnodi data monitro morol yn y gronfa ddata fwyaf addas (e.e. Cofnodydd Morol) er mwyn cynyddu hygyrchedd data monitro morol.</p> <p>Bydd y prosiect eleni yn canolbwyntio ar holl ddata monitro gwaddodion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ers 2007 a'r holl ddata riffiau ers 2010.</p>	<p>Bydd ei gwneud hi'n haws cael gafael ar ddata yn llywio asesiadau o MPAau ac yn caniatáu i'r wybodaeth gael ei defnyddio gan bobl eraill mewn prosiectau/gwaith ymchwil, gan wella'r sylfaen dystiolaeth forol gyffredinol.</p>	<p>Cofnodi data wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2020.</p>	<p>CNC JNCC</p>	<p>Y</p>
19	<p>Dadansoddi samplau data monitro heb eu casglu er mwyn llywio asesiadau o gyflwr safle.</p> <p>Rhestrwyd yn flaenorol fel Cam Gweithredu 7 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Bydd y prosiect hwn yn cwblhau'r dadansoddiad o samplau data heb eu casglu er mwyn gwella cywirdeb asesiadau o gyflwr a hyder yn yr asesiadau hyn.</p> <p>Eleni, bydd contractau pellach yn cael eu dyfarnu i baratoi, dadansoddi ac adrodd ar ddata monitro ar gyfer cynefinoedd morol Atodiad I sy'n weddill.</p>	<p>Bydd gwybodaeth dda ac amserol am gyflwr nodweddion yn helpu i flaenoriaethu camau rheoli.</p>	<p>Cyhoeddi adroddiadau erbyn diwedd Mawrth 2020.</p>	<p>CNC</p>	<p>Y</p>

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
Camau gweithredu newydd						
20	Cynllun gweithredu i leihau'r nifer yr adar sy'n cael eu dal yn ddamweiniol fel sgil-ddalffa yn nyfroedd y DU.	<p>Mae'r prosiect tair blynedd hwn ar gyfer y DU gyfan yn ceisio sicrhau dull cydlynol er mwyn deall, a lle y bo angen, lleihau nifer yr adar y môr sy'n cael eu dal yn ddamweiniol fel sgil-ddalffa ym mhysgodfeydd y DU. Amcanion y prosiect yn 2019/2020 yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygu rhaglen waith i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau ar y posibilrwydd o ddefnyddio mesurau lliniaru; a • nodi gwelliannau i waith monitro ac asesu presennol. 	Bydd gwella'r sail dystiolaeth a'r dulliau rheoli er mwyn mynd i'r afael â nifer yr adar y môr sy'n cael eu dal yn ddamweiniol fel sgil-ddalffa yn yr amgylchedd morol yn cyfrannu at reolaeth yr MPAau, gan gynnwys y safleoedd hynny ar gyfer adar y môr.	Mawrth 2022	JNCC CNC LIC	Y

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAAu	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
21	<p>Prosiect Cymru ar gyfer Gweithgareddau na ellir eu Trwyddedu (y prosiect gweithgareddau nad ydynt wedi'u rheoleiddio gynt).</p> <p>Rhestrwyd Rhan 2 fel Cam 12 yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.</p>	<p>Yn dilyn ymgysylltu gwerthfawr â rhanddeiliaid ynghylch rheoli safleoedd ym mis Ebrill 2019, mae gwaith ar y gweill i ddatblygu Cam 3 y prosiect hwn gan adeiladu ar waith a gwblhawyd fel rhan o Gynllun Gweithredu 2018-2019.</p> <p>Mae'r elfennau allweddol sy'n cael eu hystyried yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cloddio am abwyd: <ul style="list-style-type: none"> - ymchwiliadau maes ar ddosbarthiad a dwyster y gweithgarwch a'r effeithiau ar safleoedd a nodwyd fel rhai sensitif o bosibl yn ystod cam 2; - astudiaeth gwmpasu ar ddichonoldeb opsiynau rheoli i fynd i'r afael â'r effeithiau ar nodweddion gwarchoddedig (gan ddefnyddio'r Gann fel cynllun peilot) • angori, mwrio a lansio: nodi ardaloedd agored i niwed o bosibl o wely'r môr/rhynglanwol: defnyddio data gweithgarwch o gam 2; 	<p>Gwell sail dystiolaeth ar gyfer gweithgareddau blaenoriaeth uchel.</p> <p>Blaenoriaethu a gweithredu gwaith rheoli, lle y bo angen, er mwyn gwella (neu gynnal) cyflwr nodweddion MPAAu.</p>	Mawrth 2021	CNC	Y

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
21		<ul style="list-style-type: none"> • arolwg geoffisegol: yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn llywio trafodaeth ynghylch a ddylid argymhell bod angen i'r gweithgarwch hwn gael trwydded forol; a • cychod adloniant/badau hamdden: dystiolaeth o effeithiau badau hamdden ar gyflwr nodwedd rhywogaethau symudol morol. <p>Fel ag y mae, cloddio am abwyd sydd â'r dystiolaeth fwyaf fod angen cymryd camau rheoli.</p>				

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAAu	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
22	Prosiect Ysbwriel Cymunedol.	<p>Mae'r prosiect hwn yn cynnwys pedair elfen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adolygiad o'r canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau ysbwriel blaenorol a pharhaus; • datblygu syniadau ar gyfer prosiectau ysbwriel gwerth ychwanegol neu brosiectau sy'n mynd i'r afael â materion nad yw prosiectau cymunedol neu genedlaethol yn rhoi sylw iddynt ar hyn o bryd; • cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn atal gollwng ysbwriel yn anfwriadol gan gerbydau casglu ysbwriel; • prosiect wedi'i dreialu yng Nghyngor Sir Gwynedd er mwyn lleihau plastigau untro mewn awdurdodau lleol. <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn ategu Cam Gweithredu 10.</p>	<p>Codi ymwybyddiaeth o ysbwriel morol a chymorth ar gyfer prosiectau i leihau'r defnydd o blastig.</p> <p>Lleihau faint o blastig a mathau eraill o ysbwriel arall sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd morol yn lleol.</p>	Mawrth 2020	Grŵp awdurdod Perthnasol ACA Pen Llŷn a'r Sarnau	Y

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
23	Lleihau aflonyddu ar famaliaid ac adar morol.	<p>Mae'r prosiect hwn yn cynnwys tair elfen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adolygiad o effeithiolrwydd y codau morol sydd ar waith yn ACA Morol Sir Benfro, Bae Ceredigion a Phen Llŷn a'r Sarnau; • cynhyrchu paneli aflonyddu ar forloi ar gyfer safleoedd magu allweddol ledled Cymru; a • gan adeiladu ar waith a wnaed yn Sir Benfro, archwilio'r costau dichonoldeb ar gyfer datblygu ap i Gymru gyfan i ddarparu gwybodaeth am achosion posibl o darfu ar rywogaethau sy'n agored i niwed. 	<p>Mae codau morol ar safleoedd allweddol ar gyfer rhywogaethau symudol iawn yn addas i'r diben.</p> <p>Cyfrannu at gadw'r morlo llwyd <i>Halichoerus grypus</i> mewn cyflwr ffafriol.</p> <p>Mae defnyddwyr morol yn ymwybodol o broblemau aflonyddwch posibl ledled Cymru, a sut y gall hyn effeithio ar rywogaethau sy'n agored i niwed.</p>	Mawrth 2020	Grŵp awdurdod Perthnasol ACA Pen Llŷn a'r Sarnau	Y

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
24	Prosiect peilot ar bori morfeydd heli ac ansawdd dŵr yn ACA Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd.	<p>Amlygwyd ansawdd dŵr gwael yn adroddiadau dangosol CNC ar gyflwr safleoedd (2018) fel mater o bwys sy'n effeithio ar gyflwr nodweddion ar draws y rhwydwaith o MPAau yng Nghymru.</p> <p>Amcanion y prosiect hwn yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> gwella'r sail dystiolaeth ar gyfer effaith defaid yn pori ar forfa heli; a ymchwilio i fesurau rheoli er mwyn gwella cyflwr nodweddion cynefinoedd ACA Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd. <p>Gallai tystiolaeth a gynhrychir gan y prosiect hwn fod yn bwysig ar gyfer safleoedd eraill lle ceir cyfuniad o forfeydd heli a gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod neu aber. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ACA Aber Afon Dyfrdwy ACA Arfordir Môn: Morfa heli ACA Pen Llŷn a'r Sarnau ACA Forol Sir Benfro ACA Aber Afon Hafren 	<p>Gwell sail dystiolaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> ar gyfer asesiadau o gyflwr nodweddion a gwybodaeth am fesurau rheoli i helpu i gyrraedd cyflwr ffafriol; ar gyfraniad ysgarthion defaid at broblemau ansawdd dŵr morol; llywio cyfyngiadau pori ar gyfer morfeydd heli. <p>Gwybodaeth am fesurau rheoli posibl i wella materion ansawdd dŵr sy'n effeithio ar y bysgodfa gocos.</p>	Mis Medi 2020	CNC	Y

	Gweithredu	Disgrifiad	Canlyniad(au) Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau	Amserlen ar gyfer cyflawni	Awdurdodau Rheoli Allweddol	Adnodd wedi'i sicrhau: Y/N?
25	Effeithiau ysbwriel morol ar nodweddion MPAau.	<p>Mae'r cam gweithredu hwn yn mynd i'r afael â bwlch gwybodaeth a nodwyd yn ystod proses adrodd Erthygl 17 ar effeithiau ysbwriel plastig (macro a micro) ar nodweddion y rhwydwaith o MPAau. Amcanion y prosiect yw cynnal:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adolygiad llenyddiaeth o'r dystiolaeth o effaith ysbwriel (macro a micro) ar nodweddion y rhwydwaith; • ymarfer blaenoriaethu cynefinoedd a nodweddion er mwyn tynnu sylw at y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf, yn gysylltiedig â'r adolygiad llenyddiaeth a'r sail dystiolaeth. <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn ategu Cam Gweithredu 11.</p>	<p>Rhestr wedi'i blaenoriaethu o'r nodweddion safle sy'n wynebu'r risg fwyaf oherwydd effeithiau ysbwriel plastig.</p> <p>Gwell sail dystiolaeth ar gyfer asesiadau o gyflwr safle.</p> <p>Gwell sail dystiolaeth ar gyfer penderfynu ar gamau gweithredu a mesurau rheoli yn y dyfodol.</p>	Mawrth 2020	CNC Natural England	Y

Atodiad

Meini prawf ar gyfer sgrinio a sgorio camau gweithredu i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau

Cyflwyniad

Mae Grŵp Llywio ar gyfer Rheoli MPAau (y Grŵp Llywio) wedi datblygu Fframwaith ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Rheoli Cymru i reoli'r rhwydwaith o MPAau yng Nghymru yn well. Ochr yn ochr â'r Fframwaith hwn, mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau a fydd yn cael ei ddiweddarau a'i adrodd bob blwyddyn.

Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2018, cytunodd y Grŵp Llywio i ddatblygu meini prawf tryloyw y gellir eu cymhwyso'n gyson er mwyn blaenoriaethu camau gweithredu a gyflwynir i'w hystyried ar gyfer yr NMAP.

Mae'r papur hwn yn nodi'r meini prawf a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt gan y Grŵp Llywio. Datblygwyd y meini prawf hyn o ddwy broses y mae CNC wedi'u defnyddio ar gyfer blaenoriaethu gwaith cynllunio morol.

Sgrinio a blaenoriaethu'r camau i'w cynnwys yn yr NMAP

Mae Tabl 1 yn crynhoi'r meini prawf arfaethedig, ac mae manylion pellach ar sut i'w cymhwyso yn yr adrannau dilynol.

Tabl 1: Sgoriau trothwy a sgoriau uchaf ar gyfer pob un o'r meini prawf

#	Meini prawf	Sgôr trothwy	Sgôr uchaf posibl
1	A yw'r cam gweithredu'n gyson ag egwyddorion rheoli'r MPAau?	2*	15
2	Beth yw maint gofodol y cam gweithredu?	2	3
3	Beth yw gallu'r cam gweithredu i sicrhau gwelliannau, neu i wella ein dealltwriaeth o bwysau/bygythiadau neu eu rheolaeth?	2	3

#	Meini prawf	Sgôr trothwy	Sgôr uchaf posibl
4	Pa mor ddichonadwy yw'r cam gweithredu?	2	3
5	A yw cyflawni'r cam gweithredu yn cynnig gwerth am arian? Ydy/Nac ydy	N/A	N/A
	Cyfanswm	8	24

* Ar gyfer o leiaf un o'r egwyddorion rheoli

Mae dau fesur sgrinio:

1. Os yw cam gweithredu'n cael sgôr negyddol yn erbyn unrhyw un o egwyddorion rheoli'r MPA ym maen prawf 1, ni ddylid parhau ymhellach drwy'r broses flaenoriaethu nes bod y materion hyn yn cael sylw.
2. Dim ond y camau gweithredu sy'n cyrraedd y sgôr trothwy (fel y nodir yn Nhabl 1) ar gyfer yr holl feini prawf y dylid eu cynnwys yn yr NMAP⁵.

Gellid rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd y gellid defnyddio cyfanswm sgôr cam gweithredu i wahaniaethu rhwng camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn yr NMAP ac felly eu blaenoriaethu, er enghraifft i bennu sut caiff adnoddau eu dyrannu.

1. A yw'r cam gweithredu'n gyson ag Egwyddorion Rheoli'r MPAAu?

Mae'r maen prawf cyntaf hwn yn canolbwyntio ar gysondeb cam gweithredu â phum egwyddor rheoli'r rhwydwaith o MPAAu. Caiff camau gweithredu eu sgorio yn erbyn pob un o egwyddorion rheoli'r MPAAu (Blwch 1); felly, pymtheg yw'r sgôr uchaf y gellir ei chael. Efallai na fydd cam gweithredu yn berthnasol i bob egwyddor reoli. Os bydd unrhyw gam gweithredu'n cael sgôr negyddol yn erbyn unrhyw egwyddor reoli ni fydd yn mynd gam ymhellach yn y broses flaenoriaethu hyd nes y rhoddir sylw i'r materion hyn.

⁵ Dylai noddwyr camau gweithredu sy'n methu â chyrraedd y trothwy ystyried sut gellid eu gwella er mwyn cyrraedd y sgôr honno cyn y byddant yn addas i gael eu cynnwys yn yr NMAP.

Blwch 1: Egwyddorion Rheoli MPAau

ER1 Cynllunio Strategol: Dylai'r gwaith rheoli gael ei lywio gan brosesau cynllunio strategol ar lefel sector a lefel Cymru gyfan. Mae'n cefnogi'r defnydd cynaliadwy o'r rhwydwaith o MPAau mewn ffyrdd sy'n ei gwarchod ac yn ei gwella, ac yn cyfrannu at ecosystemau morol gwydn, llesiant a'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

ER2 Rheoleiddio, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu: Caiff prosesau rheoleiddio a phenderfyniadau caniatáu eu cyflawni mewn modd cyson a chymesur ar draws y rhwydwaith, ac maent yn mynd ati'n rhagweithiol i ystyried a chefnogi'r gwaith o gynnal neu wella (lle bo hynny'n bosibl/yn briodol) cyflwr safleoedd a nodweddion perthnasol ar draws y rhwydwaith.

ER3 Cyngor ac arweiniad ar reoli: Mae gweithrediadau penderfynu a rheoli yn cael cyngor ac arweiniad clir a chyson ar MPAau gan gynnwys eu hamcanion cadwraeth.

ER4 Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a'r bygythiadau er mwyn arwain rheolwyr: Mae rheolwyr yn cael eu llywio gan asesiadau ac adroddiadau ffurfiol ar gyflwr nodweddion, safleoedd a'r rhwydwaith a'r pwysau cysylltiedig. Caiff asesiadau ac adroddiadau eu llywio gan raglen dystiolaeth wedi'i blaenoriaethu (gan gynnwys monitro) sy'n gwella ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng pwysau a bygythiadau a chyflwr.

ER5 Rheolaeth ehangach: Y gweithrediadau rheoli hynny sydd â'r potensial i greu'r gwelliant mwyaf ar gyflwr a diogelwch gwaith rheoli sy'n cael blaenoriaeth ar draws y rhwydwaith. Eir i'r afael â heriau rheoli cyffredin yn gyfunol ar draws y rhwydwaith.

Defnyddiwch y canlynol fel canllaw:

	Esboniad	Sgôr
Amh	Mae anghysondebau rhwng y cam gweithredu a'r egwyddor reoli.	-3
Dim	Nid yw'r cam gweithredu'n berthnasol i'r egwyddor reoli.	0
Isel	Mae'r cam gweithredu'n cyd-fynd yn rhannol â'r egwyddor reoli.	1
Canolig	Mae'r cam gweithredu'n cyd-fynd â'r egwyddor reoli.	2
Uchel	Mae'r cam gweithredu'n cyd-fynd â'r egwyddor reoli a bydd hefyd yn cyflwyno newidiadau cadarnhaol i ffyrdd o weithio.	3

2. Beth yw maint gofodol y cam gweithredu?

Dylid dyrannu sgoriau'n seiliedig ar raddfa effaith y cam gweithredu ar y rhwydwaith o MPAAu. Defnyddiwch y canlynol fel canllaw:

	Esboniad	Sgôr
Dim	Mae'r cam gweithredu ar gyfer un safle'n unig ac ni ellir ei gymhwyso'n ehangach ar draws y rhwydwaith*.	0
Isel	Mae'r cam gweithredu ar gyfer nifer fach o safleoedd neu gyfran fach o'r rhwydwaith.	1
Canolig	Mae'r cam gweithredu ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> • nifer o safleoedd neu • gyfran fawr o'r rhwydwaith o MPAAu neu • gyfran fawr o nodwedd ar draws y rhwydwaith. <p>Gellir dyfarnu sgôr canolig hefyd os yw cam gweithredu'n brosiect arddangos# sydd â photensial cryf i gael ei gyflwyno ar draws y rhwydwaith ar ôl cyfnod peilot lleol.</p>	2
Uchel	Mae'r cam gweithredu ar gyfer y rhwydwaith (e.e. nodwedd gyfan a/neu ar draws pwysau).	3

* Dylai'r camau gweithredu hyn gael eu blaenoriaethu drwy gynlluniau gweithredu lleol lle maent yn bodoli neu drwy'r Gronfa Ddata ar gyfer Camau Gweithredu.
Byddai angen i brosiect arddangos fynd i'r afael â mater sy'n peri pryder ar draws y rhwydwaith ond sy'n addas i'w gynnal ar un safle i brofi'r dull.

3. Beth yw gallu'r cam gweithredu i sicrhau gwelliannau mewn cyflwr, neu i wella ein dealltwriaeth o bwysau/bygythiadau neu eu rheolaeth?

Mae'r maen prawf canlynol wedi'i rannu'n ddwy ran. Dylid bwrw ymlaen â cham gweithredu drwy gyfrwng **un yn unig**:

- Mae maen prawf 3a yn gysylltiedig â gallu'r cam gweithredu i fynd i'r afael â phwysau neu fygythiad⁶ hysbys sy'n wynebu nodweddion y rhwydwaith.
- Mae maen prawf 3b yn mynd i'r afael â chamau gweithredu lle mae angen ymchwilio i bwysau neu fygythiad, neu ymchwilio i'r mesur rheoli priodol i fynd i'r afael â'r pwysau neu'r bygythiad.

⁶ **Pwysau:** Ffactor yr ystyrir ei fod yn effeithio'n andwyol ar un neu ragor o nodweddion ar hyn o bryd.

Bygythiad: Ffactor nad yw'n broblem ar hyn o bryd ond yr ystyrir y bydd yn debygol o ddod yn broblem yn y dyfodol agos (a ddiffinnir fel hyd at 2020) oni chymerir camau gweithredu.

3a. Beth yw gallu'r cam gweithredu i gyflawni gwelliannau mewn cyflwr nodwedd, neu i gynnal y cyflwr hwnnw?

Mae'r maen prawf hwn yn gysylltiedig â chymau gweithredu a fydd yn arwain at welliannau mewn cyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau, neu gynnal y cyflwr hwnnw, drwy reoli pwysau/bygythiadau. Defnyddiwch y canlynol fel canllaw:

	Esboniad	Sgôr
Dim	Nid yw'r cam gweithredu wedi'i dargedu at bwysau neu fygythiad sy'n gysylltiedig â chyflwr nodwedd.	0
Isel*	Bygythiad: Bydd y cam gweithredu'n rheoli un neu fwy o'r bygythiadau a amheuir a allai effeithio ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau.	1
Canolig	Pwysau: Bydd y cam gweithredu'n rheoli un neu fwy o'r pwysau hysbys sy'n effeithio ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau. Bygythiad: Bydd y cam gweithredu'n rheoli un neu fwy o'r bygythiadau hysbys a allai effeithio ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau.	2
Uchel	Pwysau: Bydd y cam gweithredu'n rheoli un neu fwy o'r pwysau hysbys sy'n effeithio'n sylweddol ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau, gan ddefnyddio dull profedig. Bygythiad: Bydd y cam gweithredu'n rheoli un neu fwy o'r bygythiadau a allai effeithio'n sylweddol ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau gan ddefnyddio dull profedig.	3

* Nid oes sgôr isel ar gyfer y pwysau oherwydd i'w flaenoriaethu ar gyfer yr NMAP, dylai'r pwysau fod yn hysbys.

3b. Beth yw gallu'r cam gweithredu i wella ein dealltwriaeth o bwysau/bygythiadau neu eu rheolaeth?

Mae'r maen prawf hwn yn berthnasol i gamau gweithredu a fydd yn arwain at wella ein dealltwriaeth o'r pwysau neu'r bygythiadau sy'n wynebu'r rhwydwaith o MPAau, neu wella ein dealltwriaeth o'r gwahanol fesurau rheoli y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael â'r pwysau neu'r bygythiadau hyn. Defnyddiwch y canlynol fel canllaw:

	Esboniad	Sgôr
Dim	Ni fydd y cam gweithredu'n gwella ein dealltwriaeth o: a. pwysau neu fygythiadau; neu b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw.	0
Isel*	Bygythiad: Bydd y cam gweithredu'n gwella rhywfaint o'n dealltwriaeth o: a. un o'r bygythiadau a allai effeithio ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau; neu b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r bygythiad hwn.	1
Canolig	Pwysa: Bydd y cam gweithredu'n cynyddu ein dealltwriaeth o: a. un neu fwy o'r pwysau a sut maent yn effeithio ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau; neu b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i reoli'r pwysau hynny. Bygythiad: Bydd gweithredu'n gwella ein dealltwriaeth o: a. un neu fwy o'r bygythiadau a allai effeithio ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau; neu b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i reoli'r bygythiadau hynny.	2
Uchel	Pwysa: Bydd y cam gweithredu'n cynyddu'n sylweddol ein dealltwriaeth o: a. un neu fwy o'r pwysau a sut maent yn effeithio ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau; neu b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i reoli'r pwysau hynny. Bygythiad: Bydd y cam gweithredu'n gwella'n sylweddol ein dealltwriaeth o: a. un neu ragor o'r bygythiadau a allai effeithio'n sylweddol ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau; neu b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i reoli'r bygythiadau hynny.	3

* Nid oes sgôr isel am y pwysau oherwydd i'w flaenoriaethu ar gyfer yr NMAP, dylai'r pwysau fod yn hysbys.

4. Pa mor ddichonadwy yw'r cam gweithredu?

Mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â dichonoldeb technegol cyflawni cam gweithredu.

Dichonoldeb technegol: mae'n cynnwys gallu ymarferol, logistaidd a thechnegol (gan gynnwys sgiliau ac arbenigedd) i ymgymryd â cham gweithredu.

Defnyddiwch y canlynol fel canllaw:

	Esboniad	Sgôr
Dim	Nid yw'r cam gweithredu'n dechnegol ddichonadwy, hyd yn oed pe bai adnoddau ar gael.	0
Isel	Nid yw dichonoldeb technegol y cam gweithredu wedi'i brofi ar hyn o bryd.	1
Canolig	Nid oes unrhyw broblemau arwyddocaol yn ymwneud â dichonoldeb technegol.	2
Uchel	Profwyd dichonoldeb technegol.	3

5. A yw cyflawni'r cam gweithredu yn cynnig gwerth am arian?

Mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â gwerth am arian y cam gweithredu. Mae'n ateb ydy neu nac ydy syml, ond bydd angen cyfiawnhau ateb cadarnhaol. Nid oes unrhyw sgôr yn gysylltiedig â'r maen prawf hwn.

A yw rhoi'r cam gweithredu ar waith yn cynrychioli gwerth am arian? Ydy/Nac ydy

Os ydy, rhowch gyfiawnhad dros eich ateb gan ystyried pa mor gymesur yw'r gost â maint y prosiect a'r manteision y bydd yn eu cyflwyno (*dylech gynnwys y costau uniongyrchol yn ogystal â'r adnoddau eraill sydd eu hangen i gyflawni'r cam gweithredu a chanlyniadau disgwylidig y prosiect, sy'n gysylltiedig â gwelliannau mewn cyflwr neu ddealltwriaeth*).